

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn neuadd Glannau Ffraw
am 7 yh nos Fercher 19^{eg} Mehefin 2019

Preseanol: *J H Owens (Cad), M T Smithurst, K Woods, W Hughes C Davies, S Austin, A Jones, Cllr Bryan Owen, Cllr P Rogers, Mr a Mrs Mahon (Pwyllgor Neuadd Glannau Ffraw)*

Ymddiheuriadau: *R B Owen, C G Topps, E Evans, R F Owen, A Hughes*

1. Mr a Mrs Mahon, Pwyllgor Neuadd Glannau Ffraw

Estynod y cadeirydd groeso i Mr a Mrs Mahon i'r cyfarod i adrodd ar y datblygiadau diweddar mewn perthynas â'r neuadd. Adroddwyd fod y drysau tân wedi eu harchebu ac fod trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer paentio tu allan yr adeilad. Mae Pwyllgor y Neuadd wedi sefydlu gwefan – aberffraw.wales a bwriedir adolygu y strwythur ffioedd ym mis Medi. Deallir fod y grwpiau dydd a gynhelir fel arfer ym Min y Môr wedi eu symyd i'r neuadd dros dro yn ystod y gwaith atgyweirio ym Min y Môr.

2. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15/05/2019 eu derbyn yn gywir. Cynigwyd gan KW ac eilwyd gan AJ a KW.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15/05/2019

3.1 Croesffordd Dothan – arwyddbost newydd – Clerc wedi methu cysylltu â Chanolfan Byron er sawl ymdrech. Cyng P Rogers a Cyng B Owen i wneud ymholiadau.

3.2 Gor-dyfiant ar y ffin rhwng y llwybr ym Maes Llewelyn a'r cae chwarae– Adroddwyd nad oedd y gor-dyfiant wedi ei dorri gan fod yr ardal wedi ei lygru gan wastraff peryglus yn cynnwys nodwyddau. KW i ofyn i Mr Liam Jones chwistrellu'r ardal gyda chwynladdwr.

3.3 Swydd Clerc – Dim ymholiadau mewn perthynas â swydd y Clerc. KW i wneud ymholiadau gyda chlerc Llanfaelog. Clerc yn adrodd y byddai ar gaeli gymryd cofnodion yng nghyfarfod mis Gorffennaf ond na fyddai yn mynychu cyfarfodydd yn dilyn hyn. Dogfennau'r Cyngor Cymuned i'w symud i'r neuadd yn ystod mis Awst. JHO i wneud ymholiadau ynglyn â chwprdd addas.

3.4. Bro Branwen – Pryderon ynglyn â'r diffyg canllaw ar lwybr eiddo ym Mro Branwen. Mae tenant y ty yn anabl. Deallir y bydd yr adran dai yn cynnal asesiad.

3.5. Porth Trecastell – Pryderon ynglyn â pharcio ar ochrau'r ffyrdd. Cyng P Rogers a Cyng B Owen yn adrodd eu bod wedi trafod y mater gyda'r adran briffyrdd. Adran briffyrdd yn argymhell llinellau melyn ond ar ran byrach o'r ffordd na'r disgwyl. Pryderon wedi eu mynegi ynglyn â'r tebygolrwydd y bydd hyn yn symud y broblem i ardal arall. Cyng P Rogers yn adrodd fod 2 warden traffig ychwanegol i'w cyflogi ar yr ynys.

4. Ceisiadau Cynllunio

4.1. Plot 101 Glan y Môr, Aberffraw – Adroddodd y Clerc for y cais cynllunio wedi ei dynnu'n ôl.

5. Cyfrifon 2018-2019

Clerc yn adrodd fod yr Archwilydd Mewnol yn gweithio ar y cyfrifon. Cyfarfod byr i'w gynnal ar nos Iau 27^{ain} Mehefin i drafod adroddiad yr Archwilydd Mewnol a chymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn 2018-2019.

6. Cynllun Hyfforddi

Cais gan y Pwyllgor Safonau fod Cynghorau Tref a Chymuned yn cytuno ar gynlluniau hyfforddi ar gyfer Clercod ac Aelodau am y flwyddyn. Adroddwyd ei bod yn amlwg fod arian wedi ei glustnodi gan Gyngorau Cymuned ar gyfer hyfforddiant, fodd bynnag ymddengys nad yw yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn fod Clercod ac Aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant wedi eu paratoi yn well ar gyfer delio gyda materion llywodraethu, gan gynnwys cydymffurfio â'r Côt Ymddygiad. Cynlluniau Hyfforddi i'w rhannu gyda'r Pwyllgor Safonau erbyn 31/07/2019. Clerc i baratoi cynllun drafft erbyn cyfarfod mis Gorffennaf. Cytunwyd y dylai aelodau gymryd mantais o'r hyfforddiant ar y we a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Un Llais Cymru. Cytunwyd hefyd y dylid adolygu'r cynllun yn dilyn apwyntiad Clerc newydd.

7. Pwyllgor Safonau – Adolygiad o Gofrestau Diddordebau Aelodau

Adolygiad wedi ei gynnal gan y Pwyllgor Safonau i gofrestrau diddordebau aelodau mewn sampl o Gynghorau Tref a Chymuned. Copi o'r adroddiad wedi ei rannu i'r aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth fanwl ar gynnwys yr adroddiad. Cytunwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i ddatganiadau o ddiddordeb a chod ymddygiad yn y Cynllun Hyfforddi ar gyfer y flwyddyn.

8. Toiledau Cyhoeddus

Pryderon ynglyn â'r gost. Mr a Mrs Mahon yn datgan fod nifer o unigolion wedi eu gweld yn dal y drws yn agored ac yn cymryd dwr ar gyfer defnydd mewn carafanau ac ati. KW yn adrodd fod Pwyllgor y Neuadd wedi penderfynu peidio gosod drysau sy'n cau yn awtomatig ac y byddai'n costio oddeutu £500.00 to i osod drws addas. Mrs Mahon i gyflenwi manylion mewn perthynas â'r gost o redeg y cyfleusterau. Cytunwyd hefyd fod y penderfyniadau mewn perthynas â'r toiled cyhoeddus wedi eu gwneud gan Bwyllgor y Neuadd ac o'r herwydd ni fyddai'n dderbyniol i'r Cyngor Cymuned ymyrryd ar hyn o bryd.

9. Gohebiaeth

9.1 Cyngor Sir Ynys Môn – Adolygiad Tai. Wedi ei gwblhau gan JHO yn ystod y cyfarfod ar y cyd gyda'r aelodau a oedd yn bresennol.

9.2 Un Llais Cymru – Pwyllgor rhanbarthol i'w gynnal ar 27/06/2019

9.3 Cyngor Sir Ynys Môn – Cais i dorri llwybr cyhoeddus. KW i'w basio ymlaen i Liam Jones.

9.4 Swyddfa Archwilio Cymru – Gwybodaeth ynglyn â webinar cyllid

10. Unrhyw fater arall

10.1 Wal Ffin - AJ yn mynegi pryderon ynglyn â'r wal rhwng y llwybr troed a'r tai ger yr hen bont. Perchnogaeth y tir yn aneglur. Cyng B Owen i ymchwilio.

10.2 Lon yn arwain tuag at Y Cei – Adroddwyd nad yw'r ffordd dan gyfrifoldeb y cyngor.

11. Cyllid**Taliadau:**

19/06/2019	L Jones	Torri glaswellt ac ati	£ 1210.00
------------	---------	------------------------	-----------

Derbyniadau:

03/06/2019	HMRC	Ad-daliad TAW	£ 703.31
------------	------	---------------	----------